# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Date and Time

**9.30 y.b., DYDD MERCHER, 20FED IONAWR, 2016**

Lleoliad

**Ystafell Glaslyn,**
**Y Ganolfan Gelfyddydol (ger Yr Harbwr),**
**Porthmadog,**
**Gwynedd. LL49 9LU**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**(01341) 424301**

**glyndaobrien@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD: 13.01.16)

## AELODAETH / MEMBERSHIP

**AELODAU CABINET / CABINET MEMBERS**

Y Cynghorydd/Cllr Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd/Cllr Peredur Jenkins (Adnoddau)

**CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL / CORPORATE DIRECTORS**

Mr Iwan Trefor Jones

**PENAETHIAID UWCHRADD / SECONDARY HEAD TEACHERS**

Mr Alun Llwyd – Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Eifion Jones - Ysgol Brynrefail
Mr Dylan Minnice - Ysgol Botwnnog
Mr Andrew Roberts - Ysgol y Berwyn

**PENAETHIAID CYNRADD / PRIMARY HEAD TEACHERS**

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal
Mr Rhys Williams - Ysgol Cymerau
Mrs Menna Wynne Pugh - Ysgol Penybryn
Mr Gwyn Howells - Ysgol y Gelli
Mr Geraint Evans – Ysgol Edern
Mrs Esme Spencer - Ysgol Baladeulyn

**UNDEBAU ATHRAWON / TEACHERS' UNIONS**

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

**LLYWODRAETHWYR / GOVERNORS**

Arfon
Mr Dafydd Meirion Roberts, Ysgol Brynrefail,
Mr Godfrey Northam - Ysgol Llanllechid

Meirionnydd
Mr Gwynne Pierce - Ysgol Llanbedr
Mrs Llinos Lloyd, Corff Cysgodol Dalgylch y Gader,

Dwyfor
Mr Gwilym Jones, Ysgol Borthygest,
Cyng. Michael Sol Owen, Ysgol Glan y Mor,

**ESGOBAETH / DIOCESE**

Parchedig/Rev Robert Townsend

**YSGOLION EGLWYS / CHURCH SCHOOLS**

(Disgwyl enwebiad / Awaiting Nomination)

**YSGOLION ARBENNIG / SPECIAL SCHOOLS**

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon ac Ysgol Pendalar

**Sylwedyddion / Observers :**

Mr Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid / Head of Finance
Mr Arwyn Lloyd Thomas, Pennaeth Addysg / Head of Education Service
Mr Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg / Senior Education Resources' Manager
Mr Hefin Owen, Rheolwr Cyllid y Gyfadran Datblygu/Finance Manager Development Directorate
Mr Cai Larsen, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd / Chairman of the Primary Headteachers' Federation
Mrs Alwen Watkin, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd / Chairman of the Secondary Headteachers' Federation

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

I ddderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. COFNODION** 1 - 7

I gadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2015.

(Copi ynghlwm)

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Eitem 5 (ii) – Nifer swyddi a gollwyd fel rhan o'r broses toriadau.

**5. DIWEDDARIAD ADOLYGIAD ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD**

I dderbyn adroddiad llafar gan yr Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.

- Er gwybodaeth – linc i adroddiad gerbron Cabinet 19 Ionawr 2016 "Newidiadau yn y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanaegol a Chynhwysiant"
  https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=133&MId=1569&Ver=4&LLL=1

**6. YMESTYN CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH - CYNNAL A CHADW ADEILADAU**

I dderbyn adroddiad llafar gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg

**7. DIWEDDARIAD AM GYLLIDEB 2016/17**

I dderbyn adroddiad llafar gan y Pennaeth Cyllid. .

**8. GRANT GWELLA ADDYSG 2016/17**

I dderbyn adroddiad gan y Rheolwr Cyllid.

**9. GRANT 6ED 2016/17**

I dderbyn adroddiad llafar gan y Rheolwr Cyllid.

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

**18 TACHWEDD 2015**

---

**Yn Bresennol:**

**Y Cynghorydd Godfrey Northam (Cadeirydd)**

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Addysg)

**Penaethiaid Ysgolion :** Eifion Jones (Ysgol Brynrefail), Alun Llwyd (Ysgol Dyffryn Ogwen), Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog), Andrew Roberts (Ysgol y Berwyn), Iona Wyn Jones (Ysgol Bro Cynfal/Ysgol Edmwnd Prys), Menna Wynne-Pugh (Ysgol Penybryn, Tywyn), Gwyn Howells (Ysgol y Gelli), Esme Spencer (Ysgol Baladeulyn), Rhys Williams (Ysgol Cymerau), Geraint Evans (Ysgol Edern)

**Llywodraethwyr:** Dafydd Meirion Roberts (Ysgol Brynrefail)
Gwilym Jones (Ysgol Borthygest)

**Undebau Athrawon:** Neil Foden (Ysgol Friars)

**Swyddogion:** Arwyn Thomas (Pennaeth Addysg), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Owen Owens (Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg), Hefin Owen (Rheolwr Uned Cyllid), Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Eraill a Wahoddwyd:** Dewi Lake (Ysgol y Moelwyn), Owain Lemin Roberts (Ysgol Maesincla).

**Sylwedydd:** Cai Larsen (Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd)

1 **Ymddiheuriadau**

Y Cyng. Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau), Peter Read (Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau), Bethan Lawton (Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau), Gwynne Pierce (Cynrychiolydd Llywodraethwyr Cynradd), Llinos Lloyd (Cynrychiolydd Corff Cysgodol Dalgylch y Gader), Cyng. Michael Sol Owen (Cynrychiolydd Llywodraethwyr Uwchradd), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

2 **Datgan Buddiant Personol**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol.

3 **Cofnodion**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2015 fel rhai cywir.

4 **Materion yn codi o'r cofnodion**

(a) Eitem 6 – Hyfforddiant Cyllidol i Ysgolion
Ymddiheurodd y Rheolwr Uned Cyllid nad oedd yr hyfforddiant uchod wedi ei drefnu ond byddir yn ei drefnu yn fuan yn y Flwyddyn Newydd ac a fydd o ddiddordeb i Benaethiaid Ysgolion yn ogystal â Llywodraethwyr.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(b) Eitem 7 – Cais gan Fforwm Undebau Athrawon am gynrychiolaeth ar y Gweithgor Cyllid Addysg

**Penderfynwyd: Gwahodd un cynrychiolydd i gynrychioli'r Undebau Athrawon ar y Gweithgor Cyllid Addysg.**

(c) Eitem 12 - Ymddiswyddiad

Adroddwyd bod yr unigolion canlynol wedi eu henwebu i wasanaethu ar y Fforwm Cyllideb Ysgolion ac fe groesawyd y rhai oedd yn bresennol ac yn mynychu eu cyfarfod cyntaf o'r Fforwm:

(i) Mr Geraint Evans, Pennaeth Ysgol Edern, i olynu Mrs Sianelen Pleming, Pennaeth Ysgol Llanaelhaearn yn dilyn ei hymddeoliad
(ii) Mr Dafydd Meirion Roberts, Cynrychiolydd Llywodraethwyr Uwchradd Arfon,
(iii) Mr Gwilym Jones, Cynrychiolydd Llywodraethwyr Cynradd ardal Dwyfor
(iv) Y Cyng. Michael Sol Owen, Cynrychiolydd Llywodraethwyr Uwchradd ardal Dwyfor
(v) Mrs Llinos Lloyd, cynrychiolydd Corff Cysgodol Dalgylch y Gader

## 5 Gweithgor Cyllid Addysg - materion o gyfarfod 17 Medi 2015

(i) Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg at sylw a wnaed yng nghyfarfod o'r Gweithgor uchod ynlyn a fyddai modd cynnwys arbedion yn deillio o drefniadaeth ysgolion fel rhan o'r targed arbediad o £4.3m.

Adroddodd y Pennaeth Addysg y byddir yn ceisio canfod arbedion fel rhan o broses ymgynghoriad Her Gwynedd. Yng nghyd-destun Her Gwynedd, cynhaliwyd nifer o sioeau teithiol gyda nifer wedi mynychu a bod y cyfarfodydd yn gymysg o ran ansawdd y drafodaeth. Nodwyd bod nifer o'r holiaduron wedi eu cwblhau ar ffurf llyfryn papur yn ogystal ag ar lein. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ddiwedd y mis gyda'r bwriad wedyn o gynnal broses o raddio'r blaenoriaethau gydag adroddiad cynhwysfawr yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Ionawr a'r Cyngor llawn ar 3 Mawrth 2016 am benderfyniad terfynol.

Nodwyd ymhellach bod yr amserlen yn un tynn ond rhaid ceisio dod i farn ar y targed arbediad o £4.3m yn fuan.

Nododd y Pennaeth Cyllid nad fyddai'n wybyddus o'r setliad i Gymru tan 10 Rhagfyr 2015.

Mewn ymateb i sylw wnaed bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn amddiffyn addysg yn y gorffennol, nodwyd nad oedd datganiad gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. O safbwynt amddiffyn addysg, wrth ragdybio a chynllunio ymrwymiadau newydd, pwysleiswyd y dylid parhau i ganfod y targed o £4.3m.

Cydnabuwyd gan yr ysgolion, bod y Cyngor yn dryloyw a'u bod yn gwerthfawrogi hyn.

**Penderfynwyd: Nodi'r uchod.**

(ii) Adroddodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg ar y nifer o swyddi a gollwyd yn sgil effaith y toriadau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Swyddi Athrawon | 25.4 (llawn amser) |
| Cymorthyddion | 8.04 |

| | |
|---|---|
| Staff Ategol | 2.16 |

(ii) Mewn ymateb i'r uchod, nododd Pennaeth bod oddeutu 50 o swyddi wedi eu colli o'r sector uwchradd yn unig. Nodwyd ymhellach bod ffigyrau yn cuddio be yw gwir effaith ar ysgolion boed hyn yn swyddi llawn a / neu rhan amser ac awgrymwyd y dylid cyflwyno ffigyrau manylach.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg gyflwyno ffigyrau manylach o'r nifer swyddi a gollwyd fel rhan o'r broses toriadau.**

## 6 Polisi arfaethedig Dyraiad Gwarchodaeth Ychwanegol

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Addysg ynghylch polisi arfaethedig dyraniad gwarchodaeth ychwanegol i ysgolion.

Tywyswyd y Fforwm drwy'r adroddiad gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg gan nodi y cynhaliwyd ymgynghoriad llawn gyda holl ysgolion y Sir ar bolisi arfaethedig gwarchodaeth lleiafswm staffio ychwanegol i leihau'r dyraniad ychwanegol gwarchodaeth lleiafswm gyda swm cyfatebol i'r elfen balansau dros 5% ar ddiwedd y flwyddyn gyllidol ddiweddaraf gafodd ei gyhoeddi.

Cyfeiriwyd at ganlyniadau'r ymgynghoriad gan nodi y derbyniwyd ymateb gan 45 ysgol allan o 109. Nodwyd ymhellach bod 36 (80%) o blaid y cynnig a 9 (20%) ysgol yn erbyn. O ganlyniad felly roedd arwydd clir bod yr ysgolion a ymatebwyd yn cefnogi'r polisi a phwysleiswyd bod modd i ysgolion drafod gyda'r awdurdod unrhyw bryderon a amlygir ganddynt.

Tynnwyd sylw pe byddir yn derbyn y polisi, gan fod rhan o'r cynlluniau arbedion £4.3m yn disgyn tu allan i'r cyfnod 3 mlynedd 2015/16 i 2017/18, defnyddir yr arbedion unwaith ac am byth i gyfrannu at ariannu'r cyfnod pontio angenrheidiol.

**Penderfynwyd: Cymeradwyo'r addasiad i'r polisi dyrannu gwarchodaeth ychwanegol i ysgolion i gynnwys cymal i leihau'r dyraniad gwarchodaeth yn gyfatebol i'r elfen balansau sydd dros 5%, gan ddefnyddio'r swm balansau ar ddiwedd y flwyddyn gyllidol ddiweddaraf gafodd ei gyhoeddi.**

## 7 Diweddariad ar yr Adolygiad Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

**Penderfynwyd: Gohirio'r eitem uchod.**

## 8 Targed Arbedion Ysgolion - £4.3m

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Addysg yn amlinellu opsiynau ar gyfer rhannu gweddill y targed arbedion o £3,348,000.

(a) Mynegodd y Cadeirydd wrth y Fforwm, tra'n derbyn bod ysgolion yn colli arian drwy grantiau, effaith demograffi, a.y.b., ei bod yn ofynnol dod i benderfyniad pendant o ystyried bod Gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor eisoes wedi cytuno ar eu targedau.
(b) Bu i'r Pennaeth Addysg grynhoi y dadleuon a fu yn flaenorol a bod yr adroddiad gerbron yn cymryd i ystyriaeth cyd-detun Her Gwynedd, y drafodaeth a'r opsiynau ar gyfer rhannu gweddill y targed arbedion rhwng y sector cynradd a'r uwchradd, adborth Estyn ac ystadegau cymharol cenedlaethol. Atgoffwyd bod y Cabinet yn y gorffennol wedi gwarchod buddiannau addysg a bod yr awdurddod yn hynod o dryloyw ac yn hollol agored gyda chynnwys yr opsiynau o fewn yr adroddiad. Rhaid cofio bod yr adran yn cael ei herio yn gorfforaethol.
(c) Diolchwyd i'r Gweithgor Cyllid Addysg am benderfynu ar gynlluniau cytunedig yn y swm o £1,028,000 gyda gweddill yr arbedion o £2,320,00 i'w ddarganfod.

(d) Bod yr argymhelliad gerbron o ffafrio Opsiwn C yn seiliedig ar ddadleuon addysgol ac nad oedd opsiynau A a CH o dan ystyriaeth.

(e) Mewn ymateb i sylw wnaed ynglyn a chynlluniau tymor hir trefniadaeth ysgolion, esboniwyd mai cyfarwyddyd y Cabinet ydoedd targed arbedion o £4.3m i ysgolion ac nad oedd i unrhyw arbediad yn seiliedig o drefniadaeth ysgolion i'w gynnwys o fewn y £4.3m. Pwysleiswyd nad oedd yr is-adeiladedd yn gynaliadwy o fewn y gyllideb sydd ar gael.

(f) Yn ystod y drafodaeth ynglyn â gwireddu gweddill y targed arbedion, amlygwyd y sylwadau isod:

- Ei bod yn anodd iawn i ystyried y mater ac nad oedd boddhad i 'run o'r ddwy sector (cynradd ac uwchradd) o orfod gwireddu toriadau
- Bod consensws barn y dylid ail-gylchu unrhyw arbediad yn deillio o drefniadaeth ysgolion ar gyfer y gymhareb disgybl:athro (PTR)
- Bod cyd-destun y drafodaeth yn gosod y cynradd yn erbyn yr uwchradd, ac o'r farn bod gan y Gweithgor Cyllid Addysg waith pellach i'w gyflawni
- Teimlwyd y byddai derbyn argymhelliad opsiwn C yn dangos tuedd trwm o blaid y sector uwchradd a hynny ar draul y cynradd ac felly yn erbyn pob egwyddor a rhesymeg addysgol o fuddsoddi mor fuan a phosibl yng ngyrfa plentyn mewn Ysgol. Golyga gweithredu opsiwn C doriad o £300,000 i'r sector uwchradd gyda'r cynradd yn wynebu toriad o £2m.
- Derbyniwyd eglurhad o effaith toriad opsiwn C ar ysgolion mawr, canolig a bach ac ni dderbynia y sector cynradd bod unrhyw resymeg teilwng dros weithredu toriad opsiwn C.
- Teimlwyd bod defnyddio effaith demograffi ar y sector uwchradd fel rhesymeg tu cefn i argymhelliad opsiwn C ar y cynradd yn ddadl gwbl anheilwng. Nodwyd bod y cynradd eisoes yn wynebu'r broblem yma, ac felly yn cael eu cosbi eilwaith drwy gymryd o'u cyllidebau er mwyn lleihau'r effaith ar yr uwchradd.
- O fod yn ddioddef toriad pellach i gyllidebau, argymhelliad y sector cynradd ydoedd opsiwn A yn unig, sef toriad cydradd rhwng y ddwy sector, fyddai'n derbyniol. Fodd bynnag, dymuniad y sector cynradd ydoedd derbyn gwell eglurhad ar sut y cyrhaeddwyd at argymhelliad opsiwn C.
- Pe byddir yn penderfynu i dorri cyllidebau gyda tuedd o blaid un sector dros y llall, gofynnir i'r Cyngor amlinellu'n eglur pa agweddau o'r ddarpariaeth bresennol fyddai'n rhaid eu torri.
- Ategwyd anfodlonrwydd bod y gwahaniaeth rhwng y ddwy sector yn anhygoel
- Ar ran y sector uwchradd, nodwyd tra'n cytuno y dylid buddsoddi yn fuan i yrfa plentyn, byddai'r buddsoddiad i'r ysgolion cynradd yn dal yn dipyn gwell na'r uwchradd
- Awgrymwyd y dylid rhoi ystyriaeth i'r gyllideb anghenion addysgol ychwanegol yng nghyfarfod nesaf y Fforwm

(ff) Mewn ymateb i rai o'r sylwadau uchod, nododd y Pennaeth Addysg:

- Bod ymgynghoriad yn mynd rhagddo o safbwynt anghenion addysgol ychwanegol yn seiliedig ar yr awdurdod, ysgolion a'r berthynas gyda'r Cyd-bwyllgor Anghenion Arbennig
- O edrych ar ddarlun cenedlaethol, ymddangosir bod lefel gwariant yn y sector cynradd yn uwch na'r ystod disgwyliedig, a'r safle cymharol wedi gostwng yn yr uwchradd ers llynedd ond yn parhau tua pen uchaf yr amrediad y disgwylir
- Bod maint y gyllideb gwarchodaeth oddeutu £600,000

(g) Yn dilyn cryn drafodaeth, cynigwyd ac eilwyd i gyfaddawdu drwy argymell opsiwn B ar gyfer rhaniad o'r £2,320,000 sy'n weddill o'r targed arbediad i'r ddwy sector yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

(i) I gadw'r arbedion o £4.3m yn sefydlog dros y tair blynedd nesaf i fyny at 2018
(ii) Bod unrhyw arbedion trefniadaeth pellach yn cyfrannu at yr arbedion ar ôl 2018

Cynigwyd gwelliant i'r uchod sef cynnig opsiwn arall rhwng opsiwn toriad B a C a fyddai'n cymryd i ystyriaeth toriad i ysgolion cynradd mawr, a bod mwy o waith yn cael ei gyflawni i gyfarch yr uchod.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Addysg werthfawrogiad o gyfaddawd drwy weithredu opsiwn B ac y byddai hyn yn rhoi her i'r Aelod Cabinet Addysg i bwyso ar y Cabinet i gymeradwyo ail-gylchu'r arian yn deillio o drefniadaeth ysgolion i leddfu toriad ysgolion yn 2018/19.

Yn dilyn derbyn ymateb y Pennaeth Addysg, tynnwyd y gwelliant yn ôl.

Gohirwyd y cyfarfod am 10 munud er mwyn rhoi cyflw i'r ddwy sector drafod y cynnig fel amlinellir yn (g) uchod.

Ail-agorwyd y cyfarfod, pleidleiswyd ar y cynnig ac fe'i gariwyd gyda 3 aelod yn atal eu pleidlais.

**Penderfynwyd: (a) Cyfleu i Gabinet y Cyngor bod y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn cymeradwyo gweithredu'r gweddill targed arbedion o £3,348,000 fel a ganlyn drwy:**

**(i)Gadarnhau'r cynlluniau cytunedig gan y Gweithgor Cyllid Addysg yn y swm o £1,028,000**
**(ii)Rannu gweddill y targed arbedion o £2,320,000 yn unol ag opsiwn toriad B (£1,642,151 –sector cynradd a £680,363 – sector uwchradd) yn ddarostyngedig i'r amodau isod:**

- **Cadw'r arbedion o £4.3m yn sefydlog am y 3 blynedd nesaf hyd at 2018**

**(iii) bod unrhyw arbedion trefniadaeth ysgolion pellach yn cyfrnnau at yr arbedion ar ôl 2018. .**

**(b) Bod y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn trafod cyllideb anghenion addysgol arbennig yn ei gyfarfod nesaf ar 10 Chwefror 2016.**

9 **<u>Newid Cytundeb Lefel Gwasanaeth - Gwasanaeth Clercio Llywodraethol</u>**

Cyflwynwyd newidiadau i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth Clercio Llywodraethol.

Tywysgwyd y Fforwm drwy'r adroddiad gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg gan nodi nad oedd cydnabyddiaeth ddigonol i'r amser a gymerir i wneud y gwaith clercio yn gyflawn ac i safon. Ymgynghorwyd gyda Swyddogion Gweinyddol Ysgolion Uwchradd yr Awdurdod a chlercod ysgolion er mwyn canfod cyfartaledd oriau a gymeririr i gwblhau'r cyfrifoldebau ynghyd a'r angen rhoi elfen o wasanaeth cynghori i gyrff Llywodraethol.

Gofynnwyd i'r Fforwm gymeradwyo'r newid yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth a chytuno ar y pris fel a ganlyn:

£1500 Ysgolion Cynradd
£2500 Ysgolion Uwchradd

Derbyniwyd ymholiadau / sylwadau gan Aelodau'r Fforwm ac fe ymatebodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg iddynt fel a ganlyn:

- Nid oedd sicrwydd faint o ysgolion sy'n defnyddio'r gwasaneath gan bod y Swyddogion Gweinyddol yn ymdrin a'r gwaith yn mwyafrif o'r ysgolion
- Bod gan yr awdurdod restr o unigolion sydd yn barod i wneud y gwaith ond ceir trafferth mewn rhai ardaloedd i gael Clercod
- Bod y ffigwr yn seiliedig ar £15 yr awr am bob awr ychwanegol
- Nad oedd gorfodaeth ar ysgolion i ymrwymo i'r CLG ac y gallent barhau gyda'u trefniadau presennol pe dymunent.
- Bod rhai ysgolion yn methu cael gwasaneth Clerc ac yn hyn o beth y byddai'r trefniadau uchod ar gael iddynt
- Nad oedd adnabyddiaeth bod unrhyw bryder ynglyn ag ansawdd y cofnodion

Cynigwyd, eilwyd a phleidleiswyd i gymeradwyo'r newid yn y CLG.

**Penderfynwyd: Cymeradwyo i'r newid yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth a chaniatáu'r pris fel a ganlyn:**

**£1500 Ysgolion Cynradd**
**£2500 Ysgolion Uwchradd**

Dechreuodd y cyfarfod am 9.00 a.m. a daeth i ben am 11.30 a.m.

CADEIRYDD